Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# Llongyfarchiadau..

# CLWB PÊL-RWYD HIRWAUN




12 Diwrnod y Nadolig 2025
Enillydd 3

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# CLWB PÊL-RWYD HIRWAUN

Clwb newydd ei sefydlu yw Clwb Pêl-rwyd Hirwaun. Dyma glwb sydd wedi'i leoli yn Neuadd Chwaraeon Cymuned Rhigos. Caiff y clwb yma ei arwain gan fam leol oedd yn cael trafferth dod o hyd i glwb pêl-rwyd i'w merch. Cafodd y clwb ei sefydlu ym mis Tachwedd ac erbyn hyn mae gan y clwb 14 o chwaraewyr. Mae'r clwb wedi gwneud cynnydd mawr dros gyfnod byr, gan gofrestru â Phêl-rwyd Cymru a manteisio ar gyllid gan ein Cronfa Chwaraeon yn y Gymuned. Ar hyn o bryd, mae’r clwb yn cynnal sesiynau ar gyfer plant 7 ac 8 oed, ond mae'r clwb hefyd yn gobeithio croesawu grwpiau oedran eraill a sefydlu timau eraill ar ôl iddyn nhw recriwtio a hyfforddi rhagor o wirfoddolwyr.

Mae gêm ymarfer gyntaf y merched, sy'n cael eu hadnabod fel yr Iron Maidens, wedi'i threfnu ar gyfer mis Rhagfyr ac mae'r merched ar bigau'r drain! Maen nhw wedi bod wrthi’n ymarfer, yn gwneud ffrindiau newydd ac yn dysgu sgiliau Pêl-rwyd sylfaenol. Maen nhw'n grŵp gwych  ac mae'r niferoedd yn parhau i dyfu bob wythnos.